

Trosolwg

Ar gyfer pwy mae'r uned hon?

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo plentyn neu berson ifanc anabl, neu blentyn neu berson ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion cymorth ychwanegol, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau a gynigir gan y lleoliad rydych chi'n gweithio ynddo.

Am beth mae'r uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â rhoi gofal ac anogaeth i'r plentyn neu'r person ifanc, eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn gweithgareddau, a chynorthwyo'r teulu yn unol â'ch rôl a gweithdrefnau'r lleoliad.

Mae'r uned hon yn cynnwys tair elfen:

1. Cynorthwyo plentyn ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig drwy roi gofal ac anogaeth
2. Rhoi cymorth i helpu'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau
3. Cynorthwyo'r plentyn a'r teulu yn unol â gweithdrefnau'r lleoliad.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynorthwyo plentyn ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig drwy roi gofal ac anogaeth

P1 gofyn am wybodaeth gan gydweithwyr am anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc

P2 dilyn cynllun unigol y plentyn neu'r person ifanc fel sail ar gyfer eu gofal a'u cyfranogiad

P3 cyfeirio'n brydlon at eraill os oes unrhyw bryderon am y plentyn neu'r person ifanc, yn unol â gweithdrefnau eich lleoliad

P4 cyfathrebu'n effeithiol â'r plentyn neu'r person ifanc, gan ofyn am gyngor a chymorth i oresgyn unrhyw anawsterau cyfathrebu

P5 canmol a gwobrwyo ymdrechion a chyflawniadau'r plentyn neu'r person ifanc

P6 rhoi cymorth a gofal mewn modd sensitif i'r plentyn neu'r person ifanc, gan wneud yn siŵr bod yr hyn a wnewch yn addas ar gyfer ei oedran, ei anghenion a'i allu.

Rhoi cymorth i helpu'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau

P7 arsylwi'r plentyn neu'r person ifanc mewn modd sensitif mewn gweithgareddau bob dydd, gan nodi unrhyw beth sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau

P8 cynnig gweithgareddau eraill os oes angen

P9 mewn ymgynghoriad ag eraill, addasu gweithgareddau a phrofiadau i alluogi'r plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan

P10 defnyddio unrhyw gymhorthion a chyfarpar arbenigol yn ôl yr angen

P11 addasu'r amgylchedd, gan gynnwys gosodiad y dodrefn a gwneud yn siŵr bod y cyfarpar yn hygyrch

P12 annog ymddygiad cadarnhaol gan blant neu bobl ifanc

Cynorthwyo'r plentyn a'r teulu yn unol â gweithdrefnau'r lleoliad

P13 gofyn am help gan eraill pan fydd angen gwybodaeth neu gymorth arnoch

P14 cynorthwyo aelodau'r teulu i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc, fel sy'n ofynnol gan eich lleoliad

P15 rhoi adborth ar gynnydd plentyn neu'r person ifanc i'r plentyn neu'r person ifanc ac oedolion eraill yn ôl yr angen

P16 cofnodi cynnydd plant neu bobl ifanc yn unol â'r dulliau y cytunwyd arnynt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 deddfau a chodau ymarfer sy'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer plant a phlant anabl a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig yn eich mamwlad

K2 cymorth a gwybodaeth leol a chenedlaethol arbenigol sydd ar gael ar gyfer anableddau ac anghenion addysgol arbennig

K3 partneriaethau gyda rhieni a theuluoedd wrth wraidd darpariaeth gan mai nhw sy'n gwybod fwyaf am eu plentyn a sut y gellir annog partneriaethau

K4 pwysigrwydd peidio â labelu plant a phobl ifanc a chael disgwyliadau realistig

K5 sut mae integreiddio/cynhwysiant yn gweithio yn eich lleoliad a'ch ardal leol a'r rhesymau dros ei fanteision neu fel arall

K6 manylion am anableddau penodol neu anghenion addysgol arbennig sy'n effeithio ar y plant neu'r bobl ifanc yn eich gofal

K7 sut i ddefnyddio Cyfathrebu Amgen ac Estynedig a chynorthwyo plant/pobl ifanc drwy ddefnyddio eu holl synhwyrâu sydd ar gael

K8 cynllunio ar gyfer anghenion unigol pob plentyn neu berson ifanc mewn partneriaeth â chydweithwyr eraill

K9 pa rwystrau a allai fod yn atal plant neu bobl ifanc rhag cymryd rhan a sut i gael gwared ar y rhwystrau hyn

K10 sut i wneud yn siŵr bod yr hyn rydych chi'n ei wneud yn addas ar gyfer yr holl blant/pobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw, yn ôl eu hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd

K11 pa gymhorthion a chyfarpar arbenigol sydd ar gael i'r plant/pobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw a sut i'w defnyddio'n ddiogel

K12 effaith bosibl cael plentyn neu berson ifanc ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig mewn teulu

TDASTL12

Cynorthwyo plentyn ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig



Geirfa